



Y NEGESYDD

AWST a MEDI

CYFARFODYDD

- Dydd Sul, 4 Awst :** Oedfaon am 10 a 5:30 ym Merea Newydd.
- Dydd Sul, 11 Awst :** Oedfaon am 10 a 5:30 yng ngofal y Parchedig Ddr Denzil Morgan.
- Dydd Sul, 18 Awst :** Oedfaon am 10 a 5:30 ym Merea Newydd
yng ngofal y Parchedig Emyr Wyn Rowlands.
- Dydd Sul, 25 Awst :** Oedfaon am 10 a 5:30 yng ngofal Eleri Lloyd Jones.
- Dydd Sul, 1 Medi :** Oedfa gymun am 10 ac oedfa am 5:30 yng ngofal ein gweinidog,
- Dydd Gwener, 6 Medi :** Grŵp Darllen yn cyfarfod am 2 i drafod
cyfrol fuddugol y Fedal Ryddiaith.
- Dydd Sadwrn, 7 Medi :** *Traidcraft* 10-12 yn y festri.
- Dydd Sul, 8 Medi :** Oedfa pob oed am 10 i lansio tymor newydd yr eglwys, yr Ysgol Sul
ac ysgolion lleol, gyda chyfle i gymdeithasu wedyn.
Oedfa hwyrol am 5:30 yng ngofal ein gweinidog
- Dydd Mercher, 11 Medi :** Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru
yn Emaus, cyfarfod y llywydd am 2 ac oedfa'r hwyr am 5:30.
- Dydd Sadwrn, 14 Medi :** Cyfarfod arbennig am 2 ym Merea Newydd i gyflwyno Medalau Gee.
- Dydd Sul, 15 Medi :** Oedfaon am 10 a 5:30 yng ngofal y Parchedig Jill Tomos.
Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
- Dydd Mawrth, 17 Medi :** Paned a sgwrs anffurfiol yn y festri o 2 hyd 4 o'r gloch.
- Dydd Sul, 22 Medi :** Oedfa am 10 yng ngofal ein gweinidog.
Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
Oedfa hwyrol am 5:30 yng ngofal ein gweinidog
- Dydd Sul, 29 Medi :** Oedfa am 10 yng ngofal ein gweinidog
gyda chyfle i drafod Adroddiad 2018.
Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore.
Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa.
Oedfa hwyrol undebol am 5:30 ym Merea Newydd
yng ngofal y Parchedig Iwan Ll Jones.

DYLETSWYDDAU

- Llywydd mis Awst:** Gareth Ffowc Roberts
- Llywydd mis Medi:** Siân Arwel Davies
- Cymun :** Siân Arwel Davies
Bernard Jones
Wesley Evans
Gareth Jones
- Wrth y drws Awst:** - trefniant anffurfiol -
- Medi:** Delyth Murphy
Cathrin Williams



- Awst 11 :** Meriel Parry
- Awst 25 :** Meriel Parry


- Medi 1 :** Iona Wyn Jones
- Medi 8 :** Iona Wyn Jones
- Medi 15 :** Olwen Davies
- Medi 22 :** Olwen Davies
- Medi 29 :** Glenda Roberts

PERERINDOD I NEUADDLWYD

Yn dilyn marwolaeth ewythr i mi ryw ugain mlynedd yn ôl, cefais y cyfrifoldeb o gael trefn ar ei bapurau a darganfod, er mawr syndod, ddogfennau am y Parchedig Hugh Roberts (1841-1916), perthynas o bell a fu'n gweithio fel cenhadwr yn yr India gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Fel rhan o'i waith yn yr India astudiodd iaith Khassi a cheisiodd roi trefn ar ramadeg yr iaith honno. Wrth gyflwyno'r dogfennau i'r Llyfrgell Genedlaethol cefais ryw gip ar y gwaith a gyflawnodd a rhyfeddu at ei fanylder.

Rhyw deimladau tebyg a brofwyd gan y criw ohonom a fentrodd dan arweiniad ein gweinidog i gapel Neuaddlwyd ger Aberaeron ar ddiwrnod hyfryd o haf i ymuno gydag aelodau o'r capel hwnnw a grŵp o gapel Noddfa, Bow Street, i ddysgu mwy am y cenhadon cyntaf o Neuaddlwyd i fentro i Fadagascar yn 1818.

Cloriannir yr hanes yn llyfr David Griffiths, un o'r cenhadon cynharaf, llyfr a luniodd yn 1843 ac a ailgyhoeddwyd mewn Cymraeg modern, mewn Saesneg ac mewn Malagaseg yn 2018 gan Undeb yr Annibynwyr



Cymraeg. Y cenhadon hynny a'u dilynwyd a osododd sylfeini trefn addysg newydd oedd yn dysgu drwy gyfrwng Malagaseg, gan gyhoeddi llyfrau, geiriadur a'r Beibl mewn Malagaseg.

Mewn rhagymadrodd i'r llyfr, ysgrifenna Geraint Tudur: *'Mae stori dechreuadau cenhadaeth yr Annibynwyr ym Madagascar yn un o berlau ein hanes. Mae iddi agweddau arwrol, a dweud y lleiaf, ond mae iddi hefyd ei hochr ddirdynnol o drist.'*

Cawsom flas o'r ddwy ochr wrth wrando ar yr hanes yng nghapel Neuaddlwyd ac wrth ddarllen y beddfeini yn y fynwent.

I gael blas ar yr hanes llawn, mynnwch gopi gan Dilwen o lyfr David Griffiths. 'Hanes Madagascar', yn ei ffurf fodern. Mae copïau ar gael yn y cyntedd am £10 yr un.

Os oedd y profiad o ymweld â Neuaddlwyd yn binacl ar ein taith, cawsom fwynhau hefyd y cyfle i fwyta ein brechdanau cinio ar brom Aberystwyth a swpera yn Aberaeron, gan gynnwys blasu hufen iâ'r dref hyfryd honno.

Diolch i'n harweinydd am fanylder y trefnu ac am arwain yr oedfa yn y capel, i'r cyfeillion yn Neuaddlwyd am eu croeso ac am adrodd yr hanes, ac i yrrwr bws Clynnog & Trefor am ein cludo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn ôl a blaen.

Gareth Ffowc Roberts



- Barod i fynd ymlaen i Aberaeron -



- Cyrraedd Neuaddlwyd -



- Astudio'r beddau -

BLODAU

Diolch i Iona Jones am drefnu'r blodau bendigedig ar gyfer angladd Megan Lloyd Jones ac hefyd, ar y funud olaf, wedi trefnu'r blodau ar y ddau Sul olaf yng Ngorffennaf.

Diolch i bawb sydd wedi rhoi blodau ar gyfer yr oedfa dros y flwyddyn. Fe fydd rhestr newydd ar gael ym mis Hydref. Os oes Suliau arbennig dymunwch roi blodau, rhwch wybod i mi neu Kath cyn diwedd Mis Medi.

e-bost : merielparry@gmail.com

Ffôn : 01248 352205

neu Kath

Ffôn : 01248 364665

CYFARFODYDD BLYNYDDOL MUDIAD Y CHWIORYDD, UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

Bydd Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad yn digwydd yn Emaus eleni, ar Ddydd Mercher, 11 Medi. Thema'r diwrnod fydd **Cwlwm Cariad**. Cynhelir cyfarfod y llywydd am 2yp ac oedfa'r nos am 5:30yh, gyda rhai o bobol ifanc ac aelodau'r eglwys yn cymryd rhan. Bydd te yn cael ei hwyllo rhwng y ddwy oedfa am £5 y pen. Byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu a darparu lluniaeth ysgafn cyn bo hir - cadwch olwg am y rhestr yn y cyntedd erbyn diwedd Awst.

Diolch yn fawr.

- Eleri Jones

CAMPAU'R IFAINC

Llongyfarchiadau i holl bobl ifainc Emaus am eu llwyddiant yng nghystadlaethau cerddorol Eisteddfod yr Urdd, fel aelodau o Fand Jazz Ysgol Tryfan ac o Ensemble Ysgol Tryfan, ac i Medi Morgan ar ennill yr Ail wobr yn y gystadleuaeth Unawd Piano Bl. 10 o dan 19 oed.



Medi Morgan

PUMAWD PRES A5

PUMAWD PRES
A5
BRASS QUINTET

Bydd 'Pumawd Pres A5', grŵp arbrofol newydd sy'n cynnwys Gwyn Owen ac artistiaid gwych eraill, yn cynnal cyngerdd ym mhabell Encore ar faes yr Eisteddfod am 7pm nos Sul, 4 Awst. Mynediad am ddim, unwaith i chi fod ar y maes.



MORGAN TECWYN WILLIAMS

Llongyfarchiadau i Morgan Tecwyn Williams am basio Gradd 4 theori cerddoriaeth (ABRSM) gydag anrhydedd yn ddiweddar:

Tipyn o gamp i blentyn ysgol gynradd. Roedd Nain (Mrs Valerie Ellis), ei athrawes, ac yntau wedi gweithio'n galed! Dyma Morgan ar ei ddiwrnod olaf yn Ysgol y Garnedd. Pob dymuniad da iddo, a sawl un arall o blant yr eglwys, wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym mis Medi.

TEITHIO YMHELL I'R COLEG

Mae Gwenno Morgan, Caer Menai, yn astudio Cerdd ym Mhrifysgol Leeds.



Fel rhan o'i chwrs,
ganol Awst
bydd Gwenno'n
hedfan i America
i dreulio blwyddyn mewn
prifysgol yn Texas.

Pob dymuniad da iddi hi.

Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes.

AWEN YN NULYN

Llongyfarchiadau i Awen Edwards sydd wedi treulio mis yn Nulyn yn cynrychioli Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor fel rhan o gynllun profiad gwaith yn llysoedd Iwerddon.

Mae Awen newydd gwblhau ei hail flwyddyn yn astudio'r gyfraith a'r Gymraeg ar y cyd ac wedi dysgu llawer o'i phrofiad yn Nulyn.



Awen o flaen
Na Ceithre Círteanna,
y 'Pedwar Llys',
sy'n gartref
i brif lysoedd Iwerddon.
ar lan yr Afon Liffey yn Nulyn.

COFIO EIRWEN READ



Fyddai Eirwen ddim yn hapus iawn fy mod i'n rhoi'r ychydig eiriau hyn i lawr ar bapur. I'r wraig dawel a diymhongar hon, y peth olaf fyddai hi eisiau oedd sylw. Gwell ganddi hi roi sylw i bawb arall.

Ganwyd a magwyd Eirwen a Nellie, ei chwaer, yng Nglasinfryn a bu'r ddwy'n aelodau ffyddlon yng Nghapel Bethmacca cyn symud i Fangor. Rwy'n rhyw gredu mai merch ei thad oedd Eirwen ac yn sicr fe'i gwelai ei hun y mwyaf direidus o'r ddwy er mor agos oeddent o ran oed. Ym Methmacca y bu Eirwen yn chwarae'r organ, gwasanaeth a barhaodd pan ddaeth yn aelod yng Nghapel Beulah. Wedi colli Douglas, ei gŵr, yn gymharol ifanc, roedd ei merch

Anwen ac yn ddiweddarach Lisa, ei hwyres, yn bwysig iawn iddi. Yn y man, cyrhaeddodd Isaac Ioan, mab Lisa a'i gŵr Mark, a daeth yntau'n gannwyll llygad Nain Bangor. Pleser mawr i Eirwen oedd fod Lisa wedi etifeddu'r hoffter mawr o gerddoriaeth a Lisa'n dysgu chwarae'r organ a'r delyn.

Pan gyrhaeddais i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, fel yr oedd Prifysgol Bangor yn y 1970au, roedd swyddfa Eirwen a'r genod eraill lawr uwch fy mhen ond pawb yn dod at ei gilydd am baned bore a phnawn. Rhoi'r byd - a'r Brifysgol - yn eu lle. Yno y cafwyd llawer o chwerthin: Eirwen yn eistedd yno'n dawel dan wenu ac yn y man, deuai rhyw berl ddoniol ganddi, a honno'n ddigon bachog weithiau. Pan fyddai pethau'n mynd o chwith, ymateb Eirwen bob amser oedd **"O byns!"**. Roedd ganddi synnwyr digrifwch eithriadol, rhywbeth a feithrinwyd efallai gan John Ogwen a William Lewis y bu'n cydweithio â hwy!

Peth braf iawn yw cofio â gwên fawr am ffrind ond felly fydd hi gydag Eirwen. Hyd yn oed yn y cyfnod diwethaf hwn, gyda'r cof yn cilio a hithau'n sylweddoli bod rhywbeth o'i le, ym mhob ymweliad ag Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri a Phlas Hedd byddai'n bleser bod gyda hi. Byddai wedi bod wrth ei bodd yn gweld genod y Coleg nôl gyda'i gilydd yn yr angladd a byddai'n falch iawn fod pawb wedi mynd am baned a chacen a chyfle i gofioamdani ac i ddiolch am y fraint o'i chael yn ffrind.

Delyth Murphy

COFIO MEGAN LLOYD JONES

Gyda thristwch y clywsom yn gynharach y mis hwn am farwolaeth Megan Lloyd Jones yng nghartref ei mab Gareth yn Llanddarog. Ganwyd Megan yn fferm 'Rala, Waunfawr ger Caernarfon yn 1927, yn ail blentyn i William a Lily Evans. Chwarelwr oedd William a Lily felly oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar y fferm. Bu Megan yn ddisgybl yn ysgol Waunfawr ac yna aeth i Ysgol Syr Hugh yng Nghaernarfon cyn mynd ymlaen i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru i astudio cerddoriaeth, diddordeb fu'n bwysig iddi drwy'i bywyd.

Yn y coleg cyfarfu â Bryn oedd yn astudio Hanes ac Addysg Gorfforol â'i fryd ar fynd yn athro. Priododd y ddau yn 1947 a symud i'r Blaenau lle y cafodd Bryn swydd fel athro yn Ysgol y Moelwyn. Yn 1951 fe anwyd Gwyn ac un mis ar ddeg yn ddiweddarach fe anwyd Gareth. Roedd y cyfnod yn y Blaenau yn gyfnod hapus i'r teulu gyda Megan yn medru mynd yn ôl i weithio fel athrawes gyflenwi yn yr ardal wedi i'r hogiau dyfu ychydig yn hŷn.

Gyda Gwyn yn ddeuddeg a Gareth yn unarddeg oed, penderfynodd y teulu symud i Penwortham yn Lancashire wrth i Bryn dderbyn swydd yno ond roedd tynfa Cymru yn rhy gryf. Blwyddyn yn ddiweddarach daethant yn ôl i Ogledd Cymru ac i Fangor wrth i Bryn dderbyn swydd yn y Coleg Normal fel darlithydd. Aeth Gwyn a Gareth i Ysgol Friars yma ym Mangor a diwedd y 60au cafodd Megan swydd dysgu yn yr hen Ysgol Cae Top a dyna lle y buodd hi nes ei hymddeoliad.

Daethant yn aelodau i Eglwys Pendref, gyda Megan yn canu'r organ a Bryn yn cael

ei godi'n ddiagon. Buont yn ffyddlon mewn oedfaon, ac yn deyrngar eithriadol i holl waith yr eglwys. Wedi i Bendref a Penuel uno i greu Eglwys Gydenwadol Emaus fe ddaeth Megan yn aelod yno ac mae'r Parchedig Olaf Davies yn ei chofio fel gwraig hynod garedig a byrlymus â'i gwên hyfryd yn cynhesu'r galon.

Wedi ymddeol daeth y rhyddid i Megan a Bryn i deithio. Manteisiodd y ddau ar y cyfleoedd a gododd yn sgîl gyrfaedd eu meibion. Bu Gwyn am flwyddyn yn rhan o gynllun cyfnewid i Galifornia a daeth ei rieni allan i dreulio amser gydag ef yno. Yn 1998 cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yn Kualalumpur a Gareth oedd meddyg i dîm Prydain felly dyna gyfle euraidd i Megan a Bryn fynd allan yno i brofi peth o'r cyffro.

Wedi colli Bryn yn 2004 daliodd ati i fynd yn ôl ac ymlaen i Helygain i dreulio amser gyda Gwyn a Linda a'i hwyrion ac i Landdarog i aros at Gareth a Gaynor. Bu yn Sbaen gyda Gwyn a'r teulu ac mor ddiweddar â thair blynedd yn ôl bu ar wyliau i Malta. Ym Mangor bu'n byw bywyd hynod annibynnol a gwerthfawrogodd yn fawr gwmni a chefnogaeth ei ffrindiau i gyd.

Gyda'i nerth yn pallu a chonsyrn y teulu amdani yn cynyddu, aeth Megan i lawr i Landdarog ddechrau'r flwyddyn hon i dderbyn pob gofal a chefnogaeth gan Gareth a Gaynor. Bu farw yno'n dawel gyda'i theulu o'i hamgylch. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yn Emaus ar Orffennaf y 15fed a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys gyda Bryn a'r teulu ym mynwent Betws Garmon. Cydymdeimlwn â Gwyn a Gareth a'r teulu oll yn eu galar a'u colled.

(fersiwn dalfyredig o'r deyrnged iddi yn ei hangladd gan y Parchedig Cafi M Jones)



COFIO GWILYM OWEN

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Gwilym Owen, gŵr annwyl i Eirlys a thad hoff Eleri. Bu Gwilym ar un adeg yn weithiwr ieuencid ym Maesgeirchen, yn ddyfarnwr pêl droed yma yn y Gogledd ac yn athro Ysgol Sul a diacon yn Eglwys Penuel. Yn y 1960au bu'n gohebu i gwmni teledu TWW yn y gogledd ac yna i HTV Cymru.

Dros y blynyddoedd, tyfodd Gwilym yn wyneb a llais adnabyddus i bawb fel newyddiadurwr a darlledwr ar y radio a'r teledu ac fel colofnydd i'r cylchgrawn 'Golwg'. Buont yn byw am gyfnod fel teulu yng Nghaerdydd cyn symud yn ôl i fyw i'r Gogledd.

Bu Gwilym yn bennaeth rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn HTV ac yn y BBC ac yn olygydd newyddion Radio Cymru.

Ysbrydolodd Gwilym nifer o newyddiadurwyr a cholofnwyr o ghenhedlaeth iau, yn eu plith Guto

Harri a Karen Owen ond fel holwr diflewyn ar dafod y cofir ef yn bennaf oedd yn hoff iawn, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, o **'holi a stilio, procio a phryfocio'**.

Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yn Emaus ar Orffennaf y 19eg pryd y cawsom y cyfle i glywed gan y Parchedig Wil Huw Pritchard am ddyddiau cynnar Gwilym ym Môn ac yn y Coleg ym Mangor. Cyfrannodd John Walter Jones, cyfaill i'r teulu, nifer o atgofion hefyd am fywyd a chyfraniad Gwilym ym maes darlledu ac adroddodd Eleri, merch Gwilym, eiriau hoff emyn ei thad - **'O Fab y Dyn'** er cof amdano.

Rydym yn cydymdeimlo gydag Eirlys ac Eleri yn eu colled a'u galar ac yn cofio hefyd am frawd a chwaer Gwilym yn eu colled hwythau o frawd annwyl. Bydded iddynt deimlo nerth a chynhaliaeth Duw ar yr amser anodd yma.

SUL CODI'R HWYLIAU MEDI'R 8fed AM 10yb YN EMAUS



Mae Mis Medi yn gyfnod dechrau tymor newydd a blwyddyn newydd ym mywyd llawer o sefydliadau fel ysgolion a cholegau ac mae hynny'n wir ym mywyd eglwys Emaus hefyd.

Beth am ymuno â ni i fwynhau gwasanaeth byr addas i bob oed i lansio'r cwch i'r dŵr a chodi'r hwyliau gan ofyn bendith Duw ar dymor newydd a blwyddyn newydd. Beth am wahodd rhywun i ddod gyda chi?

Bydd cyfle i ddymuno'n dda i'r rhai sy'n dechrau mewn dosbarth newydd yn yr ysgol, ac i'r athrawon wrth gwrs. Byddwn yn dymuno'n dda hefyd i'r rhai sydd ar eu ffordd i'r Coleg am y tro cyntaf, neu ar eu ffordd yn ôl i barhau eu cwrs. Os oes rhywun yn dechrau swydd newydd neu yn dechrau ar gyfnod o ymddeoliad byddwn yn dymuno'n dda iddyn nhw a byddwn yn gofyn i Dduw ein bendithio ni i gyd yn helaeth fel aelodau a ffrindiau'r eglwys ar ddechrau tymor newydd.

Dewch i fwynhau addoliad, i gofrestru ar gyfer yr Ysgol Sul ac i gyfrannu eich syniadau am weithgareddau fydd yn cael eu trefnu rhwng Medi a Rhagfyr a chofiwch aros i gymdeithasu dros baned wedyn.

(Rhowch wybod i'r gweinidog enwau'r rhai y carech i ni ddymuno'n dda iddyn nhw erbyn Medi'r 5ed, neu beth am gael rhywun i'ch ffilmio chi ar eich ffôn yn dweud eich enw a beth yw eich dechrau newydd chi) - gweinidog.emaus.bangor@gmail.com neu 01286 660666)

EGLWYS DRYLOYW

Dychmygwch petai muriau adeilad ein capel ni nid o gerrig ond o wydr tryloyw. Fe fydden ni wedyn yn sicr o gofio am y gymuned o'n hamgylch ni. Wrth addoli ar fore Sul, ddylem ni fyth osgoi'r byd o'n cwrpas nac encilio oddi wrtho ond, yn hytrach, gadael i fywyd a phroblemau ein cymuned a'n byd ddod i mewn i'n haddoliad i'n gweddïau a'n ffordd ni o ddarllen y Beibl. Ac wrth gwrs rydym angen gweithredu'n ymarferol wedyn i helpu pobl.

Ond mae gwydr yn gweithio'r ffordd arall hefyd, yn gadael i bobl edrych i mewn. Fe ddylen ni sylweddoli fod angen i'r gymuned o'n hamgylch ni fedru gweld i mewn er mwyn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn ein hadeilad ni. Nid rhywbeth cudd ddylai eglwys fod ond rhywbeth amlwg sy'n cynnig goleuni a gobaith. Ac er mwyn cynnig goleuni a gobaith mae angen i ni ddarganfod y geiriau i rannu'r profiad o fod yn Gristion gydag eraill.

Ydych chi'n barod i fod yn un o'r Cenhadon

Milltir Sgwâr sy'n siarad am eich ffydd yn ogystal â'i gweithredu? Os nad ydych chi'n meddwl fod ganddoch chi'r hyder i wneud na'r gallu i wneud - peidiwch â phoeni. Dro ar ôl tro yn y Beibl fe ddarllenwn ni am bobl yn amau oes ganddyn nhw'r gallu a'r awdurdod i gario neges Duw at bobl eraill - a dyma'r union bobl mae Duw yn eu nerthu a'u harfogi i wneud y gwaith.

Ble fedrwn ni ddechrau? Gallwn ni ddechrau drwy rannu ein profiad ni o fod yn Gristion ac yn aelod o Eglwys Iesu Grist. Meddyliwch beth rydych yn ei dderbyn o ddod i'r gwasanaethau, meddyliwch am ryw hanes am Iesu sydd wedi eich cyffwrdd neu eich ysbrydoli, neu meddyliwch am yr hyn rydych chi'n ei fwynhau am berthyn i gymuned yr eglwys. Meddyliwch am y pethau yma a rhannwch! Mae angen pregethwyr, arweinwyr a gweinidogion ar Eglwys Iesu Grist heddiw, ond mae angen mawr hefyd am bobl fel ni i fod yn genhadon yn ein milltir sgwâr drwy siarad am ein ffydd.

Cari M Jones



A



*Mae'r sesiynau Paned a Sgwrs
wedi dod i ben dros yr haf
ond diolch i bawb a gyfrannodd
at y lluniaeth a'r sgysiau difyr.*

**Bydd cyfle i ni ymgynnull eto,
a dod â mwy o ffrindiau gyda ni gobeithio,
pnawn Mawrth, Medi 17ed rhwng 2 a 4 o'r gloch**

Y GENHADAETH



Er mai criw bychan ohonom oedd yno, cafwyd bore difyr iawn ym Mhlas Menai pan gynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd Arfon a Môn. Roedd hi'n braf a heulog - fel arfer!

Llywyddwyd gan Elizabeth Roberts a chroesawodd bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd chwiorydd Emaus thema'r cyfarfod eleni sef Apêl Timothy Richards. Lansiwyd yr apêl yn yr Undeb fis Mehefin. Defnyddiwyd rhannau o'r pecyn baratowyd gan yr Undeb ar gyfer yr eglwys a chawsom drosolwg o'r gwaith sydd yn digwydd gyda phlant teuluoedd ffoaduriaid o Syria yn Libanus.

Yn dilyn materion busnes, cyflwynodd Eleri Lloyd Jones ein siaradwraig Ann Lapage, Llywydd Senana Cymru, a chawsom dipyn o'i hanes pan yn gweithio yn Tansania gyda'r *Emmanuel Trust*, elusen

sydd mewn partneriaeth gyda'r BMS er gwella bywyd rhai sydd wedi dioddef oherwydd llifogydd a thrychinebau tebyg.

Er bod penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod flwyddyn diwethaf i gasglu nwyddau sych ar gyfer Banc Bwyd Bangor, rhaid cyfaddef mai ychydig ohonom oedd wedi cofio!

Gan fod Rhianwen Roberts yn gwirfoddoli yn y banc bwyd, bydd cyfle gan Chwiorydd Arfon yn Emaus i gyfrannu hyd ddiwedd Gorffennaf os ydynt yn dymuno.

Atgoffwyd ni o ddyddiad cyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwiorydd gynhelir yn Emaus ar 11 Medi pan fydd Eleri Lloyd Jones yn dod i'r llywyddiaeth. Thema'r cyfarfod fydd '*Cwlwm Cariad*' a thraddodir anerchiad gan Eleri yn ymchwilio gwahanol agweddau o'r cwlwm hwnnw. Cadwch olwg am y manylion fydd ar boster yn y cyntedd cyn hir.

Siân Arwel Davies



TRAIDCRAFT

Cynhelir y bore coffi a siop Traidcraft nesaf ddydd Sadwrn 7 Medi o 10 tan 12 o'r gloch.

Cofiwch am y rota yn y cyntedd.

Ni ellir cynnal bore coffi heb wirfoddolwyr i wneud y coffi!

Diolch yn fawr i Gareth Ffowc Roberts am gasglu a chydlynu'r wybodaeth ar gyfer y rhifyn yma.

XXXXXX

Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn Hydref y Negesydd i Ann a Gareth Roberts

e-bost: garethroberts46@icloud.com
Ffôn: 01248 364049

erbyn Medi 22ain, fan bellaf.

GRŴP DARLLEN

Bydd y Grŵp Darllen yn cyfarfod
bnawn Gwener

6 Medi am 2 o'r gloch
i drafod cyfrol fuddugol
y Fedal Ryddiaith,



*neu y nofel fuddugol
os na fydd teilyngdod
ar y Fedal.*